



## Aseiad Strwythuredig 2015

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Blwyddyn archwiliad:**2015

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 759A2015

# Statws yr adroddiad

---

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddir dan Adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod Adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Anne Beegan, Alison Butler, James Foster, John Herniman, Kevin Sutch a David Thomas.

# Cynnwys

---

Mae trefniadau sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau'n parhau i esblygu, ond mae angen gwelliant pellach yn arbennig mewn perthynas â rheoli risgiau ystadau a chyflawni cydbwysedd ariannol

---

## Crynodeb

Cyd-destun	4
Prif gasgliadau	4
Argymhellion	8

---

## Canfyddiadau manwl

Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ond mae pwysau gweithredol a methiant i ganfod a chyflenwi'r gostyngiadau cost angenrheidiol yn golygu ei fod ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg cyllid o £23.2 miliwn, o'i gymharu â diffyg wedi'i gynllunio o £13.2 miliwn, ar ddiwedd 2015-16	9
---	---

Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol	12
--	----

Mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, yn dangos ymgysylltiad cymunedol a gwaith partner cryf, ac wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yng nghyswllt cynllunio ei weithlu, ond erys risgiau sylweddol ynghylch ystadau	28
---	----

---

## Atodiadau

Meysydd Allweddol i'w Gwella yn Asesiad Strwythuredig 2014	37
--	----

---

## Cyd-destun

1. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn gyfrifol am ofal iechyd oddeutu 470,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled de a chanolbarth Cymru ar gyfer ystod o wasanaethau meddygol a llawfeddygol arbenigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi oddeutu 14,000 o staff ac mae ganddo gyllideb o £1.234 biliwn. Fel ysbty athrofaol, mae ganddo gysylltiadau agos â'r sector prifysgol.
2. Mae Asesiad Strwythuredig yn archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwaith yn 2015 wedi asesu pa mor gadarn yw trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, pa mor addas yw ei drefniadau llywodraethu, a rheolaeth galluogwyr allweddol sy'n cefnogi defnyddio adnoddau'n effeithiol. Wrth archwilio'r meysydd hyn, rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed o ran gwella problemau a nodwyd y llynedd.<sup>1</sup> Cafodd y gwaith archwilio ei strwythuro dan y meysydd canlynol:
  - **Cynllunio a rheolaeth ariannol**, gan gynnwys iechyd ariannol, cynllunio ariannol a gwella costau.
  - **Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes**, gan gynnwys cynllunio strategol, strwythur, trefniadau llywodraethu, rheoli perfformiad, rheolaeth fewnol a llywodraethu gwybodaeth.
  - **Galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol**, gan gynnwys rheoli newid, gweithlu, asedau, ymgysylltu, a threfniadau ar gyfer defnyddio technolegau i gefnogi busnes a chyflenwi gwasanaethau.

## Prif gasgliadau

3. Canfu ein gwaith asesu strwythuredig y llynedd y canlynol:
  - roedd cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-17 yn rhoi sylw i'r diffyg o £19.2 miliwn a ysgwyddwyd yn 2013-14, ond arweiniodd pwysau gweithredol a methiant i gyflenwi'r arbedion costau arfaethedig at ddiffyg o £21.4 miliwn ar ddiwedd 2014-15;
  - roedd trefniadau llywodraethu ar y cyfan wedi parhau i esblygu ac aeddfedu, er y gellid gwella rhai agweddau ar drefniadau ymhellach; ac
  - roedd y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddarparu'r dulliau gweithredu i hwyluso newid, ac erbyn hyn roedd y Bwrdd yn llawer mwy hyddysg am y risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â'i asedau, ond roedd adnoddau'n gyfyngedig ac roedd y gallu i gynnal newid yn achos pryder.

---

<sup>1</sup> Mae'r meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn 2014, ynghyd ag asesiad o'r cynnydd, i'w gweld yn [Atodiad 1](#) yr adroddiad hwn.

- 
4. Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth roi sylw i rai problemau a godwyd yn flaenorol, ond mae llawer o broblemau sydd angen sylw pellach o hyd. Ein casgliad cyffredinol o'r gwaith asesu strwythuredig yn 2015 yw bod trefniadau sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau'n parhau i esblygu ond bod angen gwelliant pellach yn arbennig mewn perthynas â rheoli risgiau ystadau a chyflawni cydbwysedd ariannol.
  5. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

### Cynllunio a rheolaeth ariannol

6. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig, ond mae pwysau gweithredol a methiant i nodi a chyflawni'r gostyngiadau cost sydd eu hangen yn golygu ei fod yn rhagweld diffyg o £23.2 miliwn, o gymharu â diffyg cynlluniedig o £13.2 miliwn, ar ddiwedd 2015-16.
7. Yn benodol, gwnaethom ganfod y canlynol:
  - Roedd y pwysau ariannol yn gynyddol anghynladwy yn 2014-15, ac o ganlyniad i hyn methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni cydbwysedd ariannol yn unol â'i gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ac adroddwyd diffyg o £21.4 miliwn ar ddiwedd 2014-15; ac
  - Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn eithriadol o anodd, a rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn yn 2015-16, er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn yn dilyn cadarnhad y bydd yn derbyn rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

8. Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol.
9. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:
  - mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn darparu sail gadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen, ond bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei sefyllfa ariannol ac yn cydnabod effaith Cynllun De Cymru;
  - mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu, gyda thystiolaeth o weithlu brwdfrydig a gwybodus, ond mae capasiti mewn rhai swyddogaethau corfforaethol, a'r ffaith bod staff yn gweithio dros dro ar rai lefelau drwy'r sefydliad, yn parhau i gyflwyno heriau;
  - mae effeithiolrwydd, sicrwydd a rheolaethau mewnol y Bwrdd yn dal i gael eu cryfhau, ac ar y cyfan maent yn effeithiol, er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd;

- 
- mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth strategol dda, ymddygiad da, gweinyddiaeth effeithiol, ac ymrwymiad amlwg i fod yn agored a rhoi'r claf wrth galon ei waith;
  - mae strwythur y pwyllgorau'n cefnogi llywodraethu da a cheir tystiolaeth o welliannau parhaus i drefniadau, ond mae cwmpas pellach yn bodoli ar gyfer cryfhau'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad;
  - mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu'r ffordd mae'r gwaith o reoli gwybodaeth yn cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio i gefnogi gwaith craffu a gwneud penderfyniadau yn effeithiol;
  - mae'r trefniadau rheoli risg wedi parhau i gael eu cryfhau ar lefel y Bwrdd a'r weithrediaeth, ond mae capasiti o fewn y tîm llywodraethu i helpu byrddau clinigol a'u cyfarwyddiaethau i nodi a rheoli risgiau'n dal i fod yn achos pryder; ac
  - mae rheolaethau mewnol yn gyffredinol yn effeithiol o ran bodloni gofynion sicrwydd presennol, ond mae angen gwell goruchwyliaeth o gamau gweithredu mewn perthynas â rhai argymhellion archwilio allanol.
  - mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg ar gyfer y Bwrdd lechyd, ond mae trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau rhoi'r sicrwydd sydd ei angen;
  - caiff y Bwrdd ei hysbysu mewn modd priodol ynglŷn â'i berfformiad, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o waith craffu yn ei Bwyllgor Perfformiad, ac mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i ddangos ei fod yn gwella yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol.

## Galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol

10. Mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, yn dangos ymgysylltiad cymunedol a gwaith partner cryf, ac wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yng nghyswllt cynllunio ei weithlu, ond erys risgiau sylweddol ynghylch ystadau.
11. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:
  - mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r cynllun tymor canolig integredig, ac mae hyn wedi'i gefnogi gan ddiwylliant cadarnhaol i wella, ond mae camau gweithredu i yrru newidiadau yn aml yn dibynnu ar gymorth allanol a gomisiynir gan y Bwrdd lechyd;
  - mae camau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau yn y gweithlu. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i gynnal y momentwm i ysgogi gwelliannau yn ystod y cyfnod cyn penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol newydd a pharhaol;
  - mae cyflwr yr ystâd yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Bwrdd lechyd, ac mae'r cynnydd a wneir i leihau'r risg hon yn isel, ac erbyn hyn nid yw'r Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â nifer o ofynion statudol;
  - gan adeiladu ar yr arferion da a welsom mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd lechyd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion, staff a rhanddeiliaid, ac at barhau i ddatblygu gwaith partneriaeth ; ac

- 
- mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth yn effeithiol, ond mae capasiti ac adnoddau TGCh yn gyfyngedig.
- 12.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanatgu'r casgliadau hyn eu crynhoi yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

---

## Argymhellion

13. Nodir yr argymhellion sy'n codi o'r gwaith asesu strwythuredig yn 2015 isod.

### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

A1 Caboli'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ymhellach i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd i'r Bwrdd. Dylai hyn gynnwys:

- a. Craffu'n fwy rheolaidd ar gyflawniad y Bwrdd lechyd yn erbyn y cynllun tair blynedd, gan gynnwys y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol; a
- b. Derbyn y crynodebau o'r trafodaethau yn dilyn Adolygiadau Perfformiad Gweithredol y Bwrdd Clinigol

A2 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei gapasiti llywodraethu i sicrhau bod digon o gapasiti i alluogi'r tîm llywodraethu i roi mwy o gymorth i'r byrddau clinigol ynghylch rheoli risg, i sicrhau bod yr holl gynlluniau gweithredu allanol yn cael eu monitro'n briodol, ac i sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn sicrwydd ysgrifenedig am y materion allweddol sy'n codi yn y pwyllgorau.

A3 Dylid gwella presenoldeb y Swyddog Gweithredol enwebedig yng nghyfarfodydd y byrddau clinigol i sicrhau ei fod yn craffu ac yn herio'n briodol ar lefel y Bwrdd clinigol yn rhinwedd ei gapasiti fel 'aelod annibynnol'.

### Galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol

A4 Mae cyflwr ystad y Bwrdd lechyd yn risg sylweddol. Mae angen i'r Bwrdd lechyd gyflymu ei gamau gweithredu yn awr i sicrhau bod ei ystad yn addas i'r diben ac, yn benodol, ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol.

---



# Canfyddiadau manwl

---

Mae trefniadau sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau'n parhau i esblygu, ond mae angen gwelliant pellach yn arbennig mewn perthynas â rheoli risgiau ystadau a chyflawni cydbwysedd ariannol

14. Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn eu crynhoi isod, ac maent wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y themâu cynllunio a rheolaeth ariannol, trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes, a galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae'r canfyddiadau'n amlygu cryfderau a datblygiadau, yn ogystal â'r risgiau sy'n dal i wynebu'r Bwrdd Iechyd.

## Cynllunio a rheolaeth ariannol

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig, ond mae pwysau gweithredol a methiant i ganfod a chyflenwi'r gostyngiadau cost angenrheidiol yn golygu ei fod ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg cyllid o £23 miliwn, o'i gymharu â diffyg wedi'i gynllunio o £13 miliwn, ar ddiwedd 2015-16

15. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:
- Roedd y pwysau ariannol yn gynyddol anghynaliadwy yn 2014-15, ac o ganlyniad i hyn methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni cydbwysedd ariannol yn unol â'i gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ac adroddwyd diffyg o £21 miliwn ar ddiwedd 2014-15; ac
  - Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn eithriadol o anodd, a rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn yn 2015-16, er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn yn dilyn cadarnhad y bydd yn derbyn rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

16. Mae crynodeb o'r casgliadau tanategol hyn yn **Nhabl 1**.

Tabl 1: Rheolaeth ariannol yn 2014-15 a 2015-16

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<p><b>Sefyllfa ariannol 2014-15</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cymeradwyodd y Gweinidog gynllun tymor canolig integredig tair blynedd y Bwrdd lechyd, sy'n rhedeg o 2014-15 hyd 2016-17, ar 7 Mai 2014.</li><li>• Nododd y cynllun fwlc o £15.5 miliwn rhwng ei ddyraniad blynyddol o adnoddau a'i wariant net cynlluniedig ar gyfer 2014-15, ac eithrio ad-dalu'r gwariant dros ben o £19.2 miliwn yn 2013-14.</li><li>• Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ychwanegol i'r Bwrdd lechyd, sef £15.5 miliwn, er mwyn cefnogi ei gynllun tair blynedd, a golygai hyn fod y Bwrdd lechyd yn bwriadu mantoli ei gyfrifon yn 2014-15.</li><li>• Roedd y Bwrdd lechyd yn bwriadu cyflawni gostyngiadau cost o £47.9 miliwn yn 2014-15.</li><li>• Drwy gydol y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd lechyd dalu sylw agos i'r alldro misol a nodwyd, ac i'r sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn.</li></ul>	<p><b>Sefyllfa ariannol 2014-15</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y Bwrdd lechyd wedi nodi cynlluniau lleihau costau o £41.2 miliwn, a byddai'n rhaid i fyrddau clinigol nodi lleihad costau pellach o £6.7 miliwn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, cafodd y byrddau clinigol anhawster i ganfod y gostyngiadau cost ychwanegol hyn, ac ni chyflawnwyd rhai o'r gostyngiadau cost arfaethedig.</li><li>• Ym mis Hydref 2014, gyda phryderon cynyddol ynghylch darparu'r gostyngiadau cost cynlluniedig a phwysau gweithredol sylweddol, newidiodd y Bwrdd lechyd y sefyllfa ariannol yr oedd yn ei rhagweld ar gyfer diwedd y flwyddyn o fantoli'r cyfrifon i ddiffyg o £25.1 miliwn.</li><li>• Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ni chyrhaeddodd y Bwrdd lechyd ei ddyraniad blynyddol o adnoddau refeniw, gan orwario £21.4 miliwn.<ul style="list-style-type: none"><li>– Gellir priodoli'r gorwariant hwn i amrywiant gweithredol gwrthwynebus o £5.9 miliwn a thangyflawniad o ran gostyngiadau cost arfaethedig o £15.4 miliwn.</li><li>– Cyflawnwyd gostyngiadau cost o £27.8 miliwn o gymharu â tharged terfynol o £43.2 miliwn, a leihawyd i adlewyrchu cyllid ychwanegol yng nghyswllt cyflogau.</li></ul></li></ul>

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<p><b>Sefyllfa ariannol 2015-16</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyodd y Gweinidog gynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd o 2015-16 i 2017-18 ar 6 Awst 2015, yn ddibynnol ar nifer o delerau ac amodau. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y telerau ac amodau hyn.</li> <li>• Mae gan y cynllun fwch o £33.9 miliwn rhwng ei ddyraniad o adnoddau referniw a'i wariant net arfaethedig dros y tair blynedd. <ul style="list-style-type: none"> <li>– Mae hyn yn eithrio adennill y gwariant ychwanegol yn 2014-15, sef £21.4 miliwn.</li> <li>– Mae hefyd yn eithrio adennill y gwariant ychwanegol yn 2013-14, sef £19.2 miliwn; cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 na fyddai'n rhaid adennill hwn bellach.</li> </ul> </li> <li>• Ar gyfer 2015-16, nododd y Bwrdd Iechyd bwysau cost o £42 miliwn, ond pennwyd targed o £28.8 miliwn ar gyfer lleihau costau, ac roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn y byddai hyn yn fwy realistig a chyraeddadwy. Canlyniad hyn oedd bwlch arfaethedig o £13.2 miliwn ar gyfer 2015-16.</li> </ul>	<p><b>Sefyllfa ariannol 2015-16</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau lleihau costau o £19.3 miliwn o'r targed o £28.8 miliwn, a byddai'n rhaid i fyrddau clinigol nodi lleihad costau pellach o £9.5 miliwn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, mae byrddau clinigol wedi cael anawsterau unwaith eto o ran dod o hyd i ffyrdd o gyflawni'r lleihad ychwanegol hwn, ac ni chyflawnwyd rhai o'r gostyngiadau cost arfaethedig.</li> <li>• Ym mis Awst 2015, gyda phryderon parhaus ynghylch cyflawni'r gostyngiadau cost cynlluniedig a phwysau gweithredol sylweddol, newidiodd y Bwrdd Iechyd y sefyllfa ariannol yr oedd yn ei rhagweld ar gyfer diwedd y flwyddyn o ddiffyg o £13.2 miliwn i ddiffyg o £23.2 miliwn.</li> <li>• Ar ddiwedd mis Tachwedd 2015, gwnaeth y Bwrdd Iechyd nodi gorwariant o £14.9 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd at y dyddiad hwnnw, o'i gymharu â gorwariant yn ystod y flwyddyn hyd at y dyddiad hwnnw o £8.8 miliwn. Mae'r gorwariant ychwanegol yn ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>– amrywiant gweithredol gwrthwynebus o £1.3 miliwn</li> <li>– tangyflawniad o ran gostyngiadau cost arfaethedig o £4.8 miliwn yn erbyn targed o £18.3 miliwn</li> </ul> </li> <li>• Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £23.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae £4.1 miliwn o ostyngiadau cost heb eu nodi hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn ym mis Rhagfyr 2015 yn dilyn cadarnhad o gyllid ychwanegol a thargedau perfformiad gan Lywodraeth Cymru.</li> </ul>

---

## Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol

17. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:

- mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd lechyd yn darparu sail gadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen, ond bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar p'un a yw'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei sefyllfa ariannol ac yn cydnabod effaith Cynllun De Cymru;
- mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu, gyda thystiolaeth o weithlu brwdfrydig a gwybodus, ond mae capasiti mewn rhai swyddogaethau corfforaethol, a'r ffaith bod staff yn gweithio dros dro ar rai lefelau drwy'r sefydliad, yn parhau i gyflwyno heriau;
- mae effeithiolrwydd, sicrwydd a rheolaethau mewnol y Bwrdd yn dal i gael eu cryfhau, ac ar y cyfan maent yn effeithiol, er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd;
  - mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth strategol dda, ymddygiad da, gweinyddiaeth effeithiol, ac ymroddiad amlwg i fod yn agored a rhoi'r claf wrth galon ei waith;
  - mae strwythur y pwyllgorau yn cefnogi llywodraethu da a cheir tystiolaeth o welliannau parhaus i drefniadau, ond mae cwmpas pellach i gryfhau'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad;
  - mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n datblygu sut mae gwybodaeth reoli'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau effeithiol;
  - mae trefniadau rheoli risg wedi parhau i gael eu cryfhau ar lefel y Bwrdd a'r weithrediaeth, ond mae capasiti o fewn y tîm llywodraethu i gefnogi byrddau clinigol a'u cyfarwyddiaethau i ganfod a rheoli risgiau yn dal i fod yn achos pryder; ac
  - mae rheolaethau mewnol yn gyffredinol yn effeithiol o ran bodloni gofynion sicrwydd presennol, ond mae angen mwy o oruchwyliaeth o gamau gweithredu a wnaed yn erbyn rhai argymhellion archwilio allanol.
- mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg ar gyfer y Bwrdd lechyd, ond mae trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau rhoi'r sicrwydd sydd ei angen;
- caiff y Bwrdd ei hysbysu mewn modd priodol ynglŷn â'i berfformiad, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o waith craffu yn ei Bwyllgor Perfformiad, ac mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i ddangos ei fod yn gwella yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol.

- 
- 18.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliadau hyn eu crynhoi yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

## Cynllunio strategol

Mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn darparu sail gadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen, ond bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei sefyllfa ariannol ac yn cydnabod effaith Cynllun De Cymru

- 19.** Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 2**. Maent yn seiliedig ar ein hadolygiad o drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd a'r graddau y mae Cynllun De Cymru'n cael ei adlewyrchu yng nghynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd.

Tabl 2: Cynllunio strategol

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cynllun tymor canolig integredig wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni chafodd y cynllun tymor canolig integredig ei gymeradwyo tan fis Awst 2015, ond amlinellodd Llywodraeth Cymru nifer o delerau ac amodau y mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd eu bodloni, gan gynnwys dangos gwelliannau clir o ran perfformiad, ei sefyllfa ariannol, a'r ddarpariaeth gwasanaethau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddysgu o hyn er mwyn llywio'r cylch cynllunio nesaf.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae datblygiad y cynllun tymor canolig integredig yn parhau i gael ei yrru gan y gwasanaethau trwy'r byrddau clinigol, eu cyfarwyddiaethau a'u hardaloedd.</li> <li>Cafwyd datblygiad cadarnhaol o ran strategaeth gwasanaethau clinigol, sy'n tanategu'r cynllun tymor canolig integredig, yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer nifer o wasanaethau allweddol, yn cael ei yrru'n glinigol, ac yn adeiladu ar egwyddorion gofal iechyd pwyllog.</li> <li>Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn gynhwysfawr ac mae'n cynnwys darlun clir o newidiadau i'r lefel gwasanaeth, targedau, a chanlyniadau disgwylidig i gleifion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen rhagor o waith i gael y cynllun tymor canolig integredig i ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol ar draws y cynllun tair blynedd gan adeiladu ar gymeradwyaeth ei gynllun gofal sylfaenol, yr unig un yng Nghymru.</li> <li>Nid yw'r cynllun tymor canolig integredig yn ddigon manwl ynglŷn ag effaith benodol rhaglen de Cymru ar wasanaethau a pha gynlluniau sydd ar gael i roi'r newidiadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys bylchau o ran effaith ystad, gweithlu a modelu ariannol oherwydd nad yw eu heffeithiau llawn wedi cael eu datblygu eto.</li> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd eto i fynegi pa wasanaethau sy'n debygol o gael eu darparu gan y byrddau iechyd cyfagos yn y dyfodol i hwyluso'r galw cynyddol yn dilyn datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau a nodir yng Nghynllun De Cymru.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad bob chwe mis ynglŷn â gweithredu'r cynllun tymor canolig integredig.</li> <li>Mae cynlluniau cynnar ar waith i adolygu'r adroddiad perfformiad i adlewyrchu pedwar amcan allweddol y cynllun tymor canolig integredig a nodwyd yn ei 'fap strategol' trwy ddatblygiad cerdyn sgorio cytbwys.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd cyllid yn parhau i effeithio ar gyflawni'r cynllun, a bydd dibyniaeth ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>gyflawni pob un o'i dargedau arbedion arfaethedig, y mae'r Bwrdd ei hun wedi cydnabod sy'n risg sylweddol</li> <li>cyllid ychwanegol o £41.7 miliwn a nodwyd fel gofyniad ariannu mewn perthynas â chyfalaf dewisol er mwyn sicrhau bod asedau'r Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben</li> </ul> </li> <li>Gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad i wneud mwy o waith craffu a herio'r cynllun tymor canolig integredig yn ystod y flwyddyn.</li> </ul>

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae dull clir hefyd ar waith i ddiweddarau'r cynllun tymor canolig integredig gydag amserlenni clir ar gyfer datblygu mewnol a chymeradwyaeth.</li> <li>• Mae capasiti wedi gwella o ran cynllunio gyda chynrychiolwyr cynllunio ar bob un o'r byrddau clinigol, sy'n cefnogi datblygiad y cynllun tymor canolig integredig o fewn a ledled byrddau clinigol.</li> <li>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei fwriadau comisiynu ymhellach er mwyn bod yn glir am ei ddisgwyliadau gan bob darparwr gwasanaeth i boblogaethau Caerdydd a'r Fro.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Er bod cynrychiolaeth ar bob un o'r byrddau clinigol, mae'r graddau y mae aelodau'r tîm cynllunio'n darparu arbenigedd mewn cynllunio strategol yn amrywio.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Bwrdd wedi dechrau adnabod ei anghenion i'r dyfodol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i heffaith ar ei gynllun tair blynedd.</li> </ul>	

---

## Strwythur sefydliadol

Mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu, gyda thystiolaeth o weithlu brwdfrydig a gwybodus, ond mae capasiti mewn rhai swyddogaethau corfforaethol, a'r ffaith bod staff yn gweithio dros dro ar rai lefelau drwy'r sefydliad, yn parhau i gyflwyno heriau

20. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 3**.

Tabl 3: Strwythur sefydliadol

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Er gwaethaf bylchau sylweddol yn y tîm gweithredol, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol dros dro wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at redeg y Bwrdd Iechyd.</li><li>Rhodddwyd ystyriaeth gadarnhaol i ddynmeg tîm o fewn y tîm gweithredol, er mwyn llywio'r broses o recriwtio Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Cyllid parhaol.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r bylchau yn y tîm gweithredol wedi rhoi pwysau gwaith ychwanegol ar swyddogion presennol y weithrediaeth.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae pob Bwrdd clinigol yn parhau i gynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol i weithredu fel 'aelod annibynnol', er mwyn galluogi gwaith craffu ychwanegol a sicrhau cysondeb ag amcanion ehangach y Bwrdd Iechyd.</li><li>Mae byrddau clinigol yn aeddfedu, a phan fo pryderon ynghylch capasiti a gallu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull aeddfed o ddarparu ymyrraeth a chymorth trwy ddefnyddio system 'gweinyddu amddiffynnol'.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nododd adolygiad o gyfarfodydd byrddau clinigol a gynhaliwyd yn 2015 mai dim ond 51 y cant o gyfarfodydd a fynychwyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol enwebedig, ac nad oedd unrhyw Gyfarwyddwr Gweithredol yn bresennol ar gyfer unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Deintyddol ac Arbenigol.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Yn ystod 2015, roedd mwy o gapasiti o fewn nifer o swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys tîm y Prif Swyddog Gweithredu, Cynllunio a Phryderon Cleifion.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae lefelau staff yn parhau i fod yn isel mewn nifer o swyddogaethau corfforaethol (TGCh, Ystadau a Phrofiad y Claf), ac mae capasiti o fewn swyddogaeth llywodraethu'n dal i fod yn risg sylweddol yn dilyn ymadawiad diweddar aelod arall o'r tîm.</li><li>Mae cynrychiolaeth ar fyrddau clinigol gan swyddogaethau corfforaethol yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau capasiti.</li></ul>



Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o gyflenwi hyfforddiant arweinyddiaeth er mwyn adeiladu capasiti a galluedd o fewn gweithlu'r Bwrdd lechyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn ystod 2015, roedd nifer o fylchau o hyd yn ar lefel uwch reolwyr ar y byrddau clinigol a'u cyfarwyddiaethau, yn arbennig o ran swyddogaeth nyrs arwain y Bwrdd clinigol, er bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r trafodaethau 'Big Room' wedi parhau i roi cyfle i staff leisio problemau a rhannu datrysiadau, gyda ffocws penodol ar bum blaenoriaeth uchaf y Bwrdd lechyd.</li> <li>Mae defnydd o'r model uwchgynhadledd clinigol, hyfforddiant Sefydliad er Gwella Gofal lechyd, a gweithdai strategaeth gwasanaethau clinigol wedi rhoi cyfleoedd cadarnhaol i ymgysylltu â staff, a dangosodd arolwg staff diweddar welliant cadarnhaol o ran yr holl ddangosyddion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â staff.</li> </ul>	

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth strategol dda, ymddygiad da, gweinyddiaeth effeithiol, ac ymroddiad amlwg i fod yn agored a rhoi'r claf wrth galon ei waith

21. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn [Nhabl 4](#).

Tabl 4: Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd yn parhau i weithio'n effeithiol ar y cyfan ac mae'r aelodau annibynnol yn gwneud gwaith da yn craffu a herio.</li> <li>Mae'r Bwrdd yn cynnal sesiynau datblygu Bwrdd rheolaidd ac mae wedi ymestyn presenoldeb yn ddiweddar i gynnwys cyfarwyddwyr cynorthwyol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae penodiad nifer o aelodau annibynnol i fod i ddod i ben yn 2016-17. Bydd angen i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn lleihau unrhyw effaith ar waith craffu'r Bwrdd oherwydd ei fod yn colli profiad a chysondeb.</li> </ul>

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu caboli i sicrhau bod y ffocws yn parhau i fod ar eitemau i'w trafod a'u cymeradwyo, ac mae agendâu wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â'r 'map strategaeth' er mwyn sicrhau cysylltiad amlwg â'r cynllun tymor canolig integredig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw craffu ar Raglen De Cymru wedi cael sylw digonol ar agendâu cyfarfodydd y Bwrdd.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd yn hynod o agored a thryloyw. Mae'n cael trafodaethau agored a gonest ynghylch ei ddiwyddiadau difrifol, ac mae ganddo berthynas aeddfed â'r Cyngor Iechyd Cymunedol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyd yma, nid yw'r Bwrdd wedi dangos sut y bydd yn ymateb i'r galw cynyddol disgwylid yn sgil Cynllun De Cymru.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithredu fel Bwrdd unigol a thrwy hynny'n galluogi aelodau annibynnol a swyddogion gweithredol i draws-herio a chynnig sylwadau.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd yn ymdrechu i roi blaenoriaeth i brofiad y claf, ac mae'r defnydd o stori claf ar ddechrau pob cyfarfod yn pwysleisio hyn. Caiff adroddiadau profiad y claf eu trafod ym mhob cyfarfod Bwrdd hefyd.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd hefyd yn adnabod ymrwymiad ac arloesedd ei staff ledled y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aml yn cynnig cynrychiolwyr am wobrwon allanol, ac mae ganddo ei wobrwon datblygedig ei hun i staff a rhaglen gydnabyddiaeth.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd weinyddiaeth dda, ac mae'r holl ofynion trefniadol ffurfiol yn cael eu bodloni ac eithrio'r adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth Haeddiannol, a ohiriwyd nes bod Cyfarwyddwr Cyllid parhaol wedi'i benodi.</li> </ul>	

---

## Strwythurau llywodraethu

Mae strwythur y pwyllgorau yn cefnogi llywodraethiant da a cheir tystiolaeth o welliannau parhaus i drefniadau, ond mae cwmpas pellach i gryfhau'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad

22. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 5**.

Tabl 5: Strwythurau llywodraethu

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>• Caiff mwyafrif helaeth o fusnes y Bwrdd a'i bwyllgorau ei drafod yn gyhoeddus, ac mae cofnodion a phapurau cysylltiedig ar gael i'r cyhoedd.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae cynlluniau gwaith ar gyfer yr holl bwyllgorau a grwpiau ymgynghorol ar waith i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth priodol i fusnes y Bwrdd. Mae cofnodion o gamau gweithredu hefyd ar waith er mwngallu olrhain materion.</li><li>• Mae fframwaith sicrwydd diwygiedig ar waith i'r Bwrdd, sy'n llywio busnes y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Er bod cadeiryddion y pwyllgorau perthnasol yn rhoi sicrwydd ar lafar i'r Bwrdd, ynghyd â chopïau o'r cofnodion o'r cyfarfodydd er gwybodaeth, mae cyfle i gryfhau'r sicrwydd hwn trwy ddarparu crynodeb ysgrifenedig o sicrwydd a risgiau.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cafodd y broses gyfathrebu rhwng y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf, a'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ei chryfhau, a gwelwyd llai o ddyblygu o ran busnes.</li><li>• Mae enw'r Pwyllgor Pobl, Perfformiad a Chyflawni wedi cael ei ddiweddarau i 'Pobl, Cynllunio a Pherfformiad' ac, ochr yn ochr â newid i strwythur yr agenda, mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar y gwaith mae'n ei wneud yn craffu ar gynlluniau'r Bwrdd lechyd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Nid yw gosod pobl (gweithlu), cynllunio a pherfformiad ar wahân ar yr agenda bob amser yn arwain at drafodaeth gyfannol am faterion a ddygwyd at sylw'r pwyllgor, ac yn aml dim ond ar gyfer eu rhan nhw o'r agenda mae swyddogion gweithredol yn bresennol. Golyga hyd y cyfarfodydd hefyd fod y swyddogion gweithredol yn aml yn gadael cyn diwedd y cyfarfod.</li><li>• Mae craffu ar waith cynllunio'n dal i ganolbwyntio ar gynlluniau cyfalaf, gyda chyfle i ymestyn hyn i ddarpariaeth y cynllun tymor canolig integredig a'r strategaeth gwasanaethau clinigol newydd.</li></ul>

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceir pwyslais cryf ar ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf ar draws yr holl bwyllgorau, a cheir agwedd agored a thryloyw tuag at reoli pryderon a digwyddiadau difrifol. Caiff stori claf ei defnyddio hefyd ar ddechrau cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf a chan is-grwpiau yn y maes hwn yn y byrddau clinigol.</li> <li>• Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer ansawdd a diogelwch, a cheir perthynas gadarn rhwng Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y Bwrdd a'r pwyllgorau priodol o fewn pob un o'r byrddau clinigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae baich gwaith y pwyllgorau'n parhau i fod yn drwm, gydag agendâu hir yn arbennig ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf. Gallai mwy o ddisgyblaeth wrth gyflwyno adroddiadau ar amser a sicrhau eu bod yn bodloni'r briff fod o gymorth i sicrhau bod materion yn cael sylw'n fwy prydlon.</li> <li>• Mae presenoldeb a chyfraniad staff meddygol yn amrywiadwy yn rhai o bwyllgorau ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf y Bwrdd clinigol.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf a'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad wedi parhau i ddefnyddio canfyddiadau ymarferion hunanasesu a gynhaliwyd yn 2014 i adolygu a diwygio'r ffordd y mae'r pwyllgorau hyn yn gweithredu.</li> </ul>	

## Gwybodaeth reoli

Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu sut mae gwybodaeth reoli'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau yn effeithiol

**23.** Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 6**.

Tabl 6: Gwybodaeth reoli

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae system 'Llyfr y Bwrdd', sy'n helpu i symleiddio cyflwyno a dosbarthu papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, wedi cael ei roi ar waith gan y Bwrdd a'i holl bwyllgorau yn awr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond aelodau'r Bwrdd sy'n gallu defnyddio system Llyfr y Bwrdd, ac mae angen cynnwys yr holl bapurau perthnasol, sy'n golygu bod papurau'r Bwrdd yn eithaf hir o'u cymharu â'r trefniant blaenorol lle'r oedd papurau manwl ar gael trwy gyfrwng hyperddolen. Mae fformat y papurau sydd bellach ar gael i'r cyhoedd hefyd yn golygu bod papurau penodol ar yr agenda'n llai hygyrch o wybod bod yr holl bapurau'n cael eu cyflwyno fel llyfr unigol yn awr.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ar y cyfan, mae adroddiadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi eu hysgrifennu a'u cyflwyno'n dda. Mae adroddiadau'n nodi cryfderau, problemau a risgiau yn rheolaidd ac yn deg.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n derbyn gwybodaeth eglur am ansawdd a diogelwch gwasanaethau, perfformiad a phrofiad y claf. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn sicrwydd rheolaidd am godio perfformiad er mwyn llywio dealltwriaeth o gyflawnder ei ddata.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ceir diffyg gwybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd ehangach yr holl ddata a ddefnyddir i lywio gwneud penderfyniadau yn yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae aelodau annibynnol yn dangos yn rheolaidd eu bod yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys eu profiadau eu hunain ac arsylwadau a goruchwyliaeth o wasanaethau. Mae hyn yn gwahanu'r wybodaeth ac yn cynorthwyo i wneud gwaith craffu a herio'n fwy trwyadl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw cerdded o amgylch i asesu diogelwch cleifion wedi bod yn gwbl effeithiol ac roedd yn cael ei ganslo'n aml. Mae cynllun ar waith i adnewyddu'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae amrywiaeth dda o wybodaeth reoli ar gael, gan gynnwys gofal sylfaenol a gofal cymunedol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae capasiti rheoli gwybodaeth y Bwrdd lechyd, a dadansoddwyr data yn benodol, i gefnogi byrddau clinigol gyda dadansoddiad o ddata yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ac yn un o'r lefelau isaf yng Nghymru.</li> </ul>

---

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg wedi parhau i gael eu cryfhau ar lefel y Bwrdd a'r weithrediaeth, ond mae capasiti o fewn y tîm llywodraethu i gefnogi byrddau clinigol a'u cyfarwyddiaethau i ganfod a rheoli risgiau yn dal i fod yn achos pryder

24. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 7**.

Tabl 7: Rheoli risg

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Dogfen fyw yw'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol sy'n cael ei hystyried yn rheolaidd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau perthnasol.</li><li>Roedd y Bwrdd lechyd yn rhagweithiol wrth ddwyn yr holl randdeiliaid allweddol at ei gilydd i adolygu'r risgiau eithafol oedd yn y fframwaith, proses y mae wedi cytuno i'w hailadrodd ar gylchdro blynyddol er mwyn ategu at ddatblygiad y cynllun tymor canolig integredig.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd lechyd yn dal i wynebu risg sylweddol y mae'n cael anawsterau i fynd i'r afael â hi. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bregus, sefyllfa ariannol anffafriol, cyflwr gwael yr ystad, heriau o ran y gweithlu, ac anhawster i gwrdd â nifer o dargedau perfformiad.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae agendâu'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi cael eu cynllunio i ganolbwyntio ar y risgiau uchel, ac mae tîm gweithredol y rheolwyr yn awr yn derbyn adroddiadau am feysydd o risg uchel.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae cyfrifoldeb clir dros risgiau ar lefel weithredol, sydd wedi ei osod ochr yn ochr â'r cynlluniau dirprwyo a nodir yn y gofrestr risgiau.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth ffurfiol ar gyfer rheoli risg, a hyd yma nid yw'r byrddau clinigol a gwasanaethau corfforaethol yn llawn werthfawrogi 'archwaeth risg' y Bwrdd. Bydd ystyriaeth reolaidd o'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol gan y rheolwyr gweithredol a chynnwys cyfarwyddwyr cynorthwyol yn sesiynau datblygu'r Bwrdd yn helpu i fynd i'r afael â hyn.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd yn parhau i feddu ar fwy o ddealltwriaeth a goddefgarwch o risgiau, ac mae'r byrddau clinigol yn derbyn mwy o gyfrifoldeb dros y cofrestrau risg.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nid yw cofrestrau risg ar lefel Bwrdd clinigol bob amser yn cael eu cwblhau o ran trefniadau goruchwylio, ac mae hysbysu risgiau'n dal i fod yn amrywiadwy ar lefel cyfarwyddiaeth a rhanbarth.</li><li>Nyrs y Bwrdd clinigol sy'n gyfrifol am fwyafrif y risgiau mewn meysydd gwasanaeth, ac mae gan dimau'r Bwrdd clinigol gyfrifoldeb llai amlwg.</li></ul>

---

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae capasiti o fewn y tîm llywodraethu i gefnogi byrddau clinigol, a chyfarwyddiaethau a rhanbarthau, i ddatblygu eu fframwaith rheoli risg yn achos pryder. Mae hyn hefyd yn cael effaith ar allu'r Bwrdd Iechyd i fod yn sicr bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i ymateb yn briodol i risgiau.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu system e-Datix yn llawn bellach, ac mae'n cael ei defnyddio'n rhagweithiol i reoli digwyddiadau.</li> </ul>	

---

## Rheolaethau mewnol

Mae rheolaethau mewnol yn gyffredinol yn effeithiol o ran bodloni gofynion sicrwydd presennol, ond mae angen mwy o oruchwyllo camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn rhai argymhellion archwiliad allanol

25. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn [Nhabl 8](#).

Tabl 8: Rheolaethau mewnol

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r fframwaith rheoli risg fel dull o hysbysu a phenderfynu ar ofynion sicrwydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrwydd priodol trwy ei fframwaith rheoli mewnol.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynllunio a chyflawni cynllun priodol sy'n seiliedig ar risg.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae Gwasanaethau Atal Twyll yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar atal, canfod ac ymateb i dwyll a chamymddwyn cysylltiedig.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fodloni ei ofynion hysbysu blynyddol. Roedd ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol yn agored a thryloyw ac wedi ei ddarparu mewn dogfen hygyrch yr oedd yn hawdd i'r cyhoedd ei deall.</li></ul>	



Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau cywirdeb a phriodoldeb ar waith ar y cyfan, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban, datgan buddiannau, cofrestru buddiannau, a datgan rhoddion a lletygarwch.</li> <li>Ceir cyfle ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor i'r rheiny sy'n bresennol ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol, ac mae'r gofrestr ar gael i bawb ei gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd.</li> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd gofrestr o bolisiau a dogfennau rheoli ysgrifenedig sy'n cofnodi dyddiadau adolygu'n glir ac sy'n cael ei chadw'n ganolog. Ceir trefniadau hefyd ar gyfer cyhoeddi'r dogfennau hyn ar y rhyngwyd a'r fewnwyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae capasiti o fewn y timau llywodraethu a diogelwch cleifion wedi arwain at yr angen i ddefnyddio dull seiliedig ar risg i adolygu a diweddarau polisiau risg, llywodraethu ac ansawdd, sicrwydd a phrofiad y claf, ac mae nifer fawr o'r polisiau wedi mynd hebio eu dyddiad adolygu. Mae'r gallu i ddarparu cymorth angenrheidiol i fyrddau clinigol ac awduron polisiau i'w cynorthwyo i ddatblygu ac adolygu polisiau hefyd yn gyfyngedig.</li> <li>Nid yw swyddogion gweithredol sy'n arwain yn weithredol bob amser yn cymryd camau i sicrhau bod dogfennau'n cael eu hadolygu.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio'n gadarnhaol ar ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae trefniadau effeithiol ar waith yn gyffredinol ar gyfer rheoli ac ymateb i argymhellion mewn archwiliadau mewnol ac allanol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'r holl gynlluniau gweithredu'n cael eu monitro nes iddynt gael eu cwblhau, fel y cynlluniau gweithredu mewn perthynas â'n gwaith ar nyrsys ardal ac orthopaedeg. Hefyd, er bod cynlluniau gweithredu mewnol yn nodi bod camau gweithredu wedi eu cwblhau, nododd ein gwaith dilynol ynglŷn ag arlwyyo mewn ysbytai a maeth cleifion nad oedd hyn bob amser yn wir.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r rhaglen archwilio clinigol yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar archwiliadau cenedlaethol, er ei bod bellach yn dechrau dwyn archwiliadau clinigol lleol at ei gilydd sy'n fwy perthnasol i'r Bwrdd Iechyd.</li> </ul>

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, ond mae trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau rhoi'r sicrwydd sydd ei angen

**26.** Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn **Nhabl 9**.

Tabl 9: Llywodraethu gwybodaeth

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad cadarnhaol at TGCh, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth bellach yn dechrau rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â materion llywodraethu gwybodaeth. Caiff yr adroddiadau hyn eu crynhoi fel rhan o'i waith o adrodd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fodd bynnag, mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg uchel i'r Bwrdd Iechyd, ac mae pryderon penodol ynglŷn â rheoli'r cofnod iechyd.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith llywodraethu gwybodaeth sydd â chyfrifoldebau ac atebolrwydd amlwg, ac mae polisiau ac arferion allweddol bellach ar waith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae grŵp ansawdd data wedi cael ei sefydlu yn awr, ond mae cynnydd wedi bod yn araf hyd yma, yn bennaf gan fod y Bwrdd Iechyd wedi bod heb dîm gweithredol llawn.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae polisi hyfforddiant ar gyfer llywodraethu gwybodaeth wedi cael ei gymeradwyo ac yn cael ei roi ar waith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nododd yr adolygiad diagnostig o gapasiti TGCh nad yw hyfforddiant diweddarau ar lywodraethu gwybodaeth yn orfodol ar hyn o bryd a bod trefniadau hyfforddi ar gyfer rhai aelodau o staff dros dro yn wan.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli torri rheolau gwybodaeth ac mae gan y Bwrdd Iechyd berthynas agored a thryloyw â'r Comisiynydd Gwybodaeth.</li> </ul>	

## Rheoli perfformiad

Caiff y Bwrdd ei hysbysu mewn modd priodol ynglŷn â'i berfformiad, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o waith craffu yn ei Bwyllgor Perfformiad, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddangos ei fod yn gwella yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol

27. Mae crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliad hwn yn [Nhabl 10](#).

Tabl 10: Rheoli perfformiad

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd yn craffu'n effeithiol ar berfformiad sefydliadol.</li> </ul>	

### Cryfderau a datblygiadau

- Ceir mwy o graffu ar berfformiad o fewn y byrddau clinigol, ac mae pob un ohonynt yn destun adolygiad perfformiad gweithredol bob mis.

- Nododd adolygiad goddrychol o berfformiad diweddar y Bwrdd agweddau cadarnhaol gan gynnwys:
  - Defnydd da o gerdyn sgorio i roi golwg gyffredinol ar berfformiad, gyda chrynodeb yn dangos lle mae perfformiad wedi gwella neu wedi dirywio.
  - Cymysgedd da o wybodaeth ansoddol a meintiol gyda defnydd priodol o siartiau a graffeg i ddangos perfformiad cyfredol a thueddiadau.
  - Rhywfaint o wybodaeth gymharol wedi ei chyflwyno mewn meysydd penodol, er bod yr wybodaeth yn dueddol o gael ei chymharu â chymheiriaid yng Nghymru.
  - Aseinio targedau i'r mwyafrif o ddangosyddion, gan gynnwys mesurau perfformiad lleol.
  - Defnydd o wybodaeth amserol.
  - Arwydd cyffredinol o'r camau gweithredu cywirol yng nghrynodeb y naratif.
  - Perfformiad profiad y claf yn seiliedig ar adborth cleifion wedi ei dderbyn yn rhagweithiol ac ymatebol.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos gwelliant cadarnhaol yn gyffredinol yn ei berfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol fel rhan o amodau cymeradwyaeth ei gynllun tymor canolig integredig.

### Risgiau a heriau

- Mae adolygiadau perfformiad gweithredol yn gyfle i ystyried pob agwedd ar berfformiad ar lefel Bwrdd clinigol gyda chyfraniad gan nifer o swyddogion gweithredol, ond nid yw cyfarfodydd bob amser yn cynnwys yr holl swyddogion gweithredol.
- Ceir diffyg cysylltiad rhwng y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad a pherfformiad o fewn y byrddau clinigol. Dylid ystyried diweddarau'r pwyllgor yn rheolaidd trwy gyfrwng yr adolygiadau perfformiad gweithredol.

- Nododd adolygiad goddrychol o berfformiad diweddar y Bwrdd y gellid ystyried agweddau pellach er mwyn gwella hysbysu gan gynnwys:
  - Dwyn yr holl adroddiadau perfformiad a chyllid ynghyd yn un adroddiad integredig sy'n ystyried perfformiad yn ei gyfanrwydd.
  - Ychydig neu ddim rhagamcanu.
  - Gwell cyfeirio o fewn yr adroddiad a llai o ailadrodd. Ar hyn o bryd, nid yw'r strwythur yn paru ag amcanion y Bwrdd Iechyd, er bod cynlluniau ar waith i ail-alinio'r adroddiad gan nodi'r amcanion craidd o fewn y cynllun tymor canolig integredig.
  - Gwell defnydd o siartiau a chodio lliw yn yr adroddiad cyllid i leihau'r naratif.
  - Ehangu cwmpas yr adroddiad perfformio i sicrhau ei fod yn ymdrin â holl weithgarwch y Bwrdd Iechyd.
  - Diffyg dyrannu cyfrifoldebau i gyflawni camau gweithredu a nodwyd.

- Mae perfformiad yn erbyn rhai targedau cenedlaethol allweddol, yn arbennig gofâl heb ei drefnu, amseroedd aros canser a'r sefyllfa ariannol, yn dal i achosi problemau.

---

## Galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, yn dangos ymgysylltiad cymunedol a gwaith partner cryf, ac wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yng nghyswllt cynllunio ei weithlu, ond erys risgiau sylweddol ynghylch ystadau

- 28.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod y canlynol:
- mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r cynllun tymor canolig integredig, ac mae hyn wedi'i gefnogi gan ddiwylliant cadarnhaol i wella, ond mae capasiti i yrru newidiadau yn aml yn dibynnu ar gapasiti allanol;
  - cymerir camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â heriau yn y gweithlu bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i gynnal y momentwm i ysgogi gwelliannau yn ystod y cyfnod cyn penodi cyfarwyddwr parhaol newydd;
  - mae cyflwr yr ystad yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd; mae'r cynnydd a wneir i leihau'r risg hon yn isel, ac erbyn hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â nifer o ofynion statudol;
  - gan adeiladu ar yr arferion da a welsom mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion, staff a rhanddeiliaid, ac at barhau i ddatblygu gwaith partneriaeth; ac
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth yn effeithiol, ond mae capasiti ac adnoddau TGCh yn gyfyngedig.
- 29.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliadau hyn eu crynhoi yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

## Rheoli newid

Mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r cynllun tymor canolig integredig, ac mae hyn wedi'i gefnogi gan ddiwylliant cadarnhaol i wella, ond mae camau gweithredu i yrru newidiadau yn aml yn dibynnu ar gymorth allanol a gomisiynir gan y Bwrdd Iechyd

- 30.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad eu crynhoi yn [Nhabl 11](#).

Tabl 11: Rheoli newid

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ei ymrwymiad cadarnhaol i newid trwy ddatblygu ei strategaeth gwasanaethau clinigol 'Llywio ein Lles yn y Dyfodol', sy'n cael ei yrru gan wasanaethau clinigol ac sy'n adeiladu ar egwyddorion gofal iechyd pwylllog.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae swyddfa rheoli rhaglenni'r Bwrdd Iechyd yn cynnig capasiti ychwanegol i fyrddau clinigol reoli newid.</li> <li>Mae ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'w raglen 'Mwy Cynnil ac Addas' yn dangos rhai gwelliannau cadarnhaol o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynhyrchiant gwasanaethau gweithredol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw byrddau clinigol bob amser yn gyrru'r newidiadau ymlaen, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd fuddsoddi'n sylweddol mewn ymgynghoriadau allanol yn aml i helpu i hwyluso'r newid, fel Newton Europe ac yn ddiweddarach GE Capital, nad ydynt bob amser yn cyflawni'r arbedion ariannol disgwylidig.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae staff y Bwrdd Iechyd yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i alluogi newid. Mae'r rhaglen Arwain Gwelliannau mewn Diogelwch Cleifion a'r swyddfa rheoli rhaglenni yn hyfforddi staff â'r sgiliau i gyflawni prosiectau.</li> </ul>	

---

## Y gweithlu

Cymerir camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â heriau yn y gweithlu. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i gynnal y momentwm i ysgogi gwelliannau yn ystod y cyfnod cyn penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol parhaol newydd

**31.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad eu crynhoi yn **Nhabl 12**.

Tabl 12: Y gweithlu

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol dros dro wedi gyrru gwelliannau cadarnhaol o ran perfformiad y gweithlu, ac mae:<ul style="list-style-type: none"><li>absenoldeb salwch ar ei lefel isaf yn yr 20 mis diwethaf yn awr;</li><li>gostyngiad o 50 y cant yn faint o amser a gymerir i gyflogi staff;</li><li>gwelliant sylweddol o ran cydymffurfio ag arfarniadau personol ac adolygiadau datblygu; a</li><li>gwelliant o ran gallu'r Bwrdd lechyd i recriwtio.</li></ul></li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Er gwaethaf gwelliannau cadarnhaol, mae heriau penodol i'r gweithlu'n parhau o ran lefelau staffio, llenwi swyddi gwag, gostwng lefelau salwch ymhellach yn unol â'r targed Haen 1, a chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.</li><li>Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol dros dro i fod i adael y Bwrdd lechyd yn gynnar yn 2016. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i gynnal y momentwm yn ystod y cyfnod trosglwyddo cyn penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol parhaol newydd.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae cynlluniau recriwtio a chadw wedi canolbwyntio ar swyddi sy'n anodd eu llenwi i sicrhau bod digon o staff i roi gofal diogel a lleihau'r risg o wasanaethau bregus.</li><li>Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwyddiadau recriwtio i wella lefel y staff sydd am weithio iddo. Mae hyn wedi cynnwys mynychu ffeiriau gyrfaedd yn Llundain, yn ogystal â defnydd arloesol o Skype i gyfweld â staff tramor.</li><li>Mae cynllun sefydlu nyrsys wedi cael ei ddatblygu rhwng y byrddau clinigol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio, sy'n cynnwys proses adolygu flynyddol.</li></ul>	

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gallu i hunanreoli'r Cofnod Staff Electronig wedi cael ei gyflwyno i fwyafrif y meysydd gwasanaeth o fewn y Bwrdd Iechyd, ac mae dull hysbysu newydd yn cael ei roi ar waith i hysbysu mewn amser real am gydymffurfiaeth ag arfarniadau personol ac adolygiadau datblygu a hyfforddiant statudol a gorfodol.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at fenter Llywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn swyddi cyhoeddus, gyda chynllun i nifer o unigolion gysgodi aelodau'r Bwrdd am gyfnod o flwyddyn.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gwerthoedd ac ymddygiadau sefydliadol y Bwrdd Iechyd bellach yn rhan o ddisgrifiadau swyddi, ac maent yn cael eu defnyddio i hybu recriwtio ar sail gwerthoedd.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd berthynas weithio dda gyda'r Fforwm Partneriaeth.</li> </ul>	

---

## Ystadau ac asedau

Mae cyflwr yr ystad yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r cynnydd a wneir i leihau'r risg hon yn isel, ac erbyn hyn nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â nifer o ofynion statudol

32. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad yn **Nhabl 13**.

Tabl 13: Ystadau ac asedau

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i ystad ac sy'n codi'n aml mewn cofrestrïadau risg ar gyfer y byrddau clinigol, cyfarwyddiaethau, ac mewn arolygiadau allanol.</li><li>Mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau wedi gyrru arfarniad llawn o gyflwr yr ystad er mwyn canfod yr wybodaeth gywir a chyfredol am gydymffurfiaeth statudol ac ymdrin â gwaith cynnal a chadw sydd ar ei hôl hi.</li><li>Mae aelod annibynnol enwebedig sydd â chyfrifoldeb dros ystadau.</li><li>Gwnaed cynnydd cadarnhaol gyda nifer o gynlluniau cyfalaf mawr y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys agor yr uned Iechyd meddwl newydd i oedolion yn Ysbyty Llandochoau ac ail gam Ysbyty Plant Cymru.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae cyflwr yr ystad yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac nid yw'n cydymffurfio â nifer o ofynion statudol ac mae llawer o ardaloedd clinigol nad ydynt yn addas i'r diben.</li><li>Caiff graddau'r diffyg cydymffurfio â gofynion statudol eu trafod yn aml yn y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, ond nid yw arwyddocâd hyn wedi cael ei uwchgyfeirio i'r Bwrdd eto.</li><li>Mae angen lefel sylweddol o fuddsoddiad y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael trwy gronfeydd cyfalaf i fynd i'r afael â chyflwr yr ystadau, ac mae'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i ymateb i risgiau uniongyrchol yn hytrach na gwaith cynnal a chadw tymor hwy a chydymffurfiaeth.</li><li>Rhoddodd adroddiad archwiliad mewnol sicrwydd cyfyngedig o drefniant y Bwrdd Iechyd i reoli gwaith cynnal a chadw sydd ar ei hôl hi.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio'n cydnabod bod angen i'r Bwrdd Iechyd feddwl yn arloesol am sut y bydd yn rheoli ei ystadau yn y dyfodol, ac mae'n rhan uniongyrchol o gynlluniau strategol tymor hwy 'Glasbrint' ar gyfer Dinas Caerdydd ynghyd â'i bartneriaid allweddol, yn arbennig Prifysgol Caerdydd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nid yw'r cynllun i ddatblygu strategaeth ystadau ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r ddau awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd.</li></ul>



Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r tîm ystadau'n cael ei ailstrwythuro er mwyn alinio adnoddau'n well gyda byrddau clinigol.</li> <li>Mae un Bwrdd clinigol yn rhan o gynllun peilot lle mae swyddogaeth 'tasgmon' yn ysgafnhau'r pwysau ar swyddogaeth graidd y tîm ystadau.</li> <li>Mae'r tîm ystadau'n cael ei gynrychioli'n gadarnhaol ar nifer o fyrddau clinigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae capasiti o fewn y tîm ystadau yn dal i fod yn her, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod swyddi ystad yn anodd eu llenwi.</li> <li>Ymddengys bod diffyg o fewn y byrddau clinigol o ran cymryd cyfrifoldeb am broblemau'r ystad, ac mae canfyddiad bod yr holl gyfrifoldeb yn eiddo i'r adran ystadau.</li> </ul>

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

Gan adeiladu ar yr arferion da a welsom mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion, staff a rhanddeiliaid, ac at barhau i ddatblygu gwaith partneriaeth

**33.** Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad eu crynhoi yn **Nhabl 14**.

Tabl 14: Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o geisio barn cleifion trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau gan gynnwys arolwg 'dwy funud o'ch amser', sydd bellach wedi cael ei gyflwyno i wasanaethau yn y gymuned, cynrychiolaeth gan gleifion a gofalwyr ar baneli, arolygon ar-lein sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, a chardiau adborth.</li> <li>Yn fwy diweddar, ceisiodd y Bwrdd Iechyd farn cleifion ar enwi'r uned Iechyd meddwl newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau.</li> <li>Y Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf yng Nghymru i ymgymryd ag arolwg boddhad ynghylch sut roedd cwynion yn cael sylw. Mae canfyddiadau'r arolwg hwnnw wedi cael eu defnyddio i lywio'r broses gwyno.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae capasiti o fewn tîm profiad y claf yn dal i fod yn risg, ond mae trafodaethau rhagweithiol yn digwydd i edrych ar ddatrysiadau electronig i helpu i gefnogi dadansoddiadau.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd berthynas aeddfed â'r Cyngor Iechyd Cymunedol, ac yn ddiweddar mae wedi datblygu siart lif 'Ymgysylltiad ar Newid Gwasanaethau' ar y cyd ag ef.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Cyngor Iechyd Cymunedol wedi dechrau adeiladu perthynas gadarnhaol gyda rhai byrddau clinigol, ond nid yw'r ymgysylltiad wedi bod cystal gyda rhai eraill.</li> </ul>

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn chwarae rhan weithredol, ac mae wedi darparu sylwadau cadarnhaol ac adeiladol ar gynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd.</li> <li>Mae aelodau'r Bwrdd, yn arbennig y cadeirydd, yn gwneud gwaith cadarn yn hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd ac yn manteisio ar bob cyfle i ymgysylltu ag aelodau o gymuned y Bwrdd Iechyd.</li> <li>Mae ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd â staff ynghylch ei gynlluniau strategol wedi gwella fel y cyfeirir ato yn <b>Nhabl 3</b>.</li> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd agwedd gadarnhaol tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch blaenoriaethau gwasanaethau a chynlluniau comisiynu, ac mae wedi sefydlu ei fwriadau comisiynu, sy'n cael cefnogaeth gan well gwaith partner gyda byrddau Iechyd cyfagos.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn chwarae rhan weithgar yn fforymau Cymru gyfan, gan gynnwys y Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys newydd.</li> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei waith partner gyda byrddau Iechyd cyfagos trwy'r Gynghrair Gofal Acíwt a rhaglen ehangach Rhaglen De Cymru.</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Bwrdd Iechyd berthynas aeddfed â'i awdurdodau lleol cyfagos trwy ddulliau fel y Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, ac mae nifer o enghreifftiau ymarferol lle mae gwaith partner yn effeithiol, gan gynnwys sefydlu swyddi ar y cyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae risg gyffredinol y gall cyni a phwysau ariannol o fewn yr awdurdodau lleol effeithio ar lefel yr ymrwymiad ariannol i waith partner.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae perthynas y Bwrdd Iechyd â Phrifysgol Caerdydd yn parhau i fod yn un gryf, a chaiff ei chefnogi gan nifer o uwch swyddogion y brifysgol a gynrychiolir ar y Bwrdd.</li> </ul>	

---

## TGCh a defnydd o dechnoleg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth yn effeithiol, ond mae capasiti ac adnoddau TGCh yn gyfyngedig

34. Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu ein casgliad eu crynhoi yn **Nhabl 15**.

Tabl 15: TGCh a defnydd o dechnoleg

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd Iechyd yn adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r seilwaith TGCh a chaiff y gofynion ar gyfer rheoli'r risgiau hynny eu nodi yn ei gynllun pum mlynedd 'Cadw'r Goleuadau Ynghynn'. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol yn 2014-15 i fynd i'r afael â rhai o'i feysydd blaenoriaeth uchel.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae lefel buddsoddi mewn TGCh ar hyn o bryd yn risg i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'n is na'r lefel gwario a argymhellir o 2 y cant o'r gyllideb refeniw. Mae angen lefel sylweddol o fuddsoddiad dros y pedair i bum mlynedd nesaf.</li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>Dangosodd ein hadolygiad diagnostig o TGCh mai lefelau staffio'r Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae aelod annibynnol cryf yn gyfrifol am wybodeg, ac mae'n cael cefnogaeth bellach gan ddau swyddog gweithredol yn dilyn ailddyrrannu cyfrifoldebau swydd y Cyfarwyddwr Cyllid.</li><li>Mae'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth yn dechrau darparu'r lefelau angenrheidiol o sicrwydd i'r Bwrdd, ac mae cynlluniau ar waith i sefydlu grŵp newydd a fydd yn rhoi'r cymorth gweithredol angenrheidiol i'r pwyllgor.</li><li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnabod yr angen i ymgysylltu â chlinigwyr yn y maes rheoli gwybodaeth a thechnoleg, ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu Grŵp Clinigol Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.</li></ul>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi arwain ar ran Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, i gynllunio a datblygu nifer o'r datrysiadau cenedlaethol allweddol ar lwybr y claf, gan gynnwys e-atgyfeirio ac e-ryddhau cleifion.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae cyflymder gweithredu'r systemau yn dal i fod yn heriol, yn arbennig lle mae cynnydd yn gysylltiedig â chaffael technoleg Cymru gyfan. Mae'r system genedlaethol newydd ar gyfer gwybodaeth gofal cymunedol, sydd eisoes wedi cael ei oedi ledled Cymru, yn enghraifft o hyn.</li></ul>

---

### Cryfderau a datblygiadau

- Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio technoleg fodern a gwell gwybodaeth i wella darpariaeth gwasanaethau, fel cyflwyno dyfeisiadau netlyfr i staff cymunedol, defnyddio telefeddygaeth ym maes dermatoleg, a defnyddio Skype i ddarparu cymorth proffesiynol i nyrsys ardal.

### Risgiau a heriau

- Nododd ein hadolygiad diagnostig o gapasiti TGCh fod lefel dyfeisiadau TGCh, fel gliniaduron a chyfrifiaduron personol mewn wardiau ac ardaloedd clinigol, gyda'r isaf yng Nghymru a bod staff clinigol yn cael anawsterau i gael mynediad atynt.

# Atodiad 1

## Meysydd Allweddol i'w Gwella yn Asesiad Strwythuredig 2014

Mae'r meysydd allweddol i'w gwella yn asesiad strwythuredig 2014, a chrynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn pob maes, yn cael eu hamlinellu isod.

### Yr hyn sydd angen ei wella

### Asesiad o gynnydd

#### Cynllunio a rheolaeth ariannol

- Brwydrodd y byrddau clinigol i ganfod gostyngiadau cost ychwanegol ac ni chyflawnwyd rhai o'r gostyngiadau cost arfaethedig.
- Roedd cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar allu'r Bwrdd lechyd i gyflenwi ei gynllun tair blynedd.

Yn 2014, gwnaethom nodi bod byrddau clinigol a chyfarwyddiaethau'n teimlo bod cynlluniau gwella costau yn rhesymol ond nad oedd yn realistig i'w cyflawni o fewn cyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau o ran amser. Mae'r broblem hon yn parhau yn 2015, ond mae cyflawni cynlluniau gwella costau hyd yma, er yn dal ar amrywiant negyddol, yn agosach at y proffil a gyllidwyd nag yn y blynyddoedd blaenorol.

#### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- Roedd presenoldeb cymysg gan swyddogion gweithredol mewn cyfarfodydd byrddau clinigol, gyda rhai byrddau clinigol yn elwa mwy ar rôl yr aelod annibynnol nag eraill.
- Roedd nifer o swyddi dros dro ar lefel Bwrdd clinigol ac ar lefel cyfarwyddiaeth/rhanbarth.

Yn 2014, gwnaethom nodi bod presenoldeb swyddogion gweithredol yn eu rolau fel aelod annibynnol ar fyrddau clinigol yn amrywio o un swyddog i'r llall, gyda rhai'n mynychu pob cyfarfod ac eraill ddim yn mynychu o gwbl. Mae'r broblem hon yn parhau yn 2015.

Yn 2014, gwnaethom nodi bod nifer o swyddi dros dro ar lefel y byrddau clinigol a'u cyfarwyddiaethau a rhanbarthau a oedd yn arwain at deimlad o ansefydlogrwydd ymysg staff. Er bod llawer o'r swyddi hyn wedi cael eu llenwi yn ystod 2015, mae swyddi eraill wedi dod yn wag, yn arbennig swyddi nyrsys arwain, sydd wedi arwain at ddefnyddio datrysiadau tymor byr yn barhaus er mwyn llenwi bylchau.

## Yr hyn sydd angen ei wella

## Asesiad o gynnydd

### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- Roedd ymdeimlad mai dim ond ar faterion gofal aciwt a thrydyddol, neu faterion oedd yn cael sylw yn y cyfryngau, roedd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio, ac roedd pryderon ynghylch diffyg cydnabyddiaeth gan y Bwrdd o bwysigrwydd y cynllun gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, a gwaith ehangach yn y maes hybu iechyd ac ataliad.
- Roedd nifer o faterion i fynd i'r afael â nhw o ran y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad i sicrhau ei fod yn rhoi'r sicrwydd priodol i'r Bwrdd.

Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd wedi ystyried ei gynllun gofal sylfaenol, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar ei bum maes blaenoriaeth o amseroedd aros, gofal heb ei drefnu, strociau, canser a chyllid, mae trafodaethau'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau wedi dechrau symud rhywfaint i roi mwy o ffocws ar ofal sylfaenol a chymunedol, ac ataliad a hybu iechyd.

Yn ystod 2015 cafodd y Pwyllgor Pobl, Perfformiad a Chyflawni ei ailenwi yn Bwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad i adlewyrchu ei rôl yn craffu a herio cynlluniau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae ein gwaith yn 2015 wedi nodi mai dim ond cynlluniau cyfalaf y Bwrdd mae'r pwyllgor yn craffu arnynt. Mae'r broses o graffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar faterion penodol, ac mae cwmpas i'r pwyllgor wneud mwy o waith craffu a herio mewn perthynas â pherfformiad y byrddau clinigol. Mae strwythur yr agenda wedi cael ei newid yn ystod y flwyddyn i ganolbwyntio'n arwahanol ar y gwahanol agweddau y dylai'r pwyllgor eu hystyried – hynny yw, pobl (y gweithlu), cynlluniau a pherfformiad – ond nid yw'r rhaniad hwn yn arwain at drafodaeth gyfannol am y materion sy'n dod i sylw'r pwyllgor.

## Yr hyn sydd angen ei wella

## Asesiad o gynnydd

### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- Roedd capasiti o fewn y tîm llywodraethu i gefnogi'r byrddau clinigol a chyfarwyddiaethau/rhanbarthau ac i ystyried a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i risgiau ledled y Bwrdd lechyd yn dal i fod yn achos pryder.

Yn 2013 a 2014, gwnaethom leisio pryder am gapasiti o fewn y tîm llywodraethu a oedd yn effeithio ar allu'r tîm i roi cefnogaeth effeithiol i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd. Yn ystod 2015, gadawodd aelod arall o'r tîm llywodraethu gan leihau'r capasiti o fewn y tîm hyd yn oed ymhellach. Mae gweddill aelodau'r tîm yn gallu rhoi'r cymorth lleiaf posibl i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ond mae angen rhagor o gapasiti i ddarparu cymorth effeithiol i'r byrddau clinigol, yn arbennig mewn perthynas â rheoli risg a monitro cyflawni cynlluniau gweithredu.

- Roedd nifer o broblemau'n parhau o ran ansawdd a diogelwch, yn arbennig mewn perthynas â'r gallu i gefnogi dysgu ar y cyd ac ymateb yn brydlon i bryderon.

Yn 2014, gwnaethom nodi pryderon mewn perthynas â chapasiti'r tîm pryderon a oedd yn effeithio ar allu'r Bwrdd lechyd i ymateb yn brydlon i bryderon a chwynion. Gwnaethom hefyd nodi bod y Bwrdd lechyd wedi cael anhawster i adolygu themâu ledled y Bwrdd lechyd cyfan yn barhaus a rhannu gwarsi. Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd lechyd wedi cynyddu ei gapasiti o ran y tîm pryderon ac mae amseroedd ymateb yn gwella, ond ceir rhywfaint o oedi o hyd wrth gael ymatebion priodol gan y byrddau clinigol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf bellach yn cynnal un pwyllgor eithriadol y flwyddyn i ystyried themâu cyffredin sy'n codi mewn pryderon a chwynion, ac mae'r byrddau clinigol yn derbyn adborth o'r rhain i sicrhau bod gwarsi'n cael eu dysgu.

## Yr hyn sydd angen ei wella

## Asesiad o gynnydd

### Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu cryfhau, ond mae rhai meysydd allweddol sydd angen sylw o hyd.

Yn 2014, gwnaethom nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i fynd i'r afael â'r problemau roedd yn eu hwynebu, ond roedd hyfforddiant rheolaidd yn parhau i fod yn broblem, ac er bod grŵp ansawdd data wedi cael ei sefydlu, roedd gwaith y grŵp hwn eto i gael ei ddatblygu. Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ar nifer o faterion llywodraethu gwybodaeth, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth yn dechrau rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r grŵp ansawdd data wedi datblygu ei agenda hyd yma, ac mae ffocws y Bwrdd Iechyd ar ansawdd ei ddata'n parhau i fod yn wendid.

### Galluogwyr defnyddio adnoddau'n effeithiol

- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi adnabod ei fod yn wynebu risgiau llym mewn perthynas â chyflwr ei asedau, ond roedd adnoddau'n gyfyngedig ac roedd yr adran ystadau dan bwysau.

Yn 2014, gwnaethom nodi bod gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg cyllid sylweddol i sicrhau bod ei adran ystadau'n addas i'r diben. Roedd yr adran ystadau'n dioddef o ddiffyg adnoddau ac roedd moral y tîm yn broblem. Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau edrych eto ar strwythur yr adran ystadau i sicrhau bod capasiti'n cael ei alinio mwy gyda'r byrddau clinigol, ond mae capasiti'n parhau i fod yn isel ac mae moral yn parhau i fod yn broblem. Mae gan yr adran lefel uchel o absenoldeb oherwydd salwch, ac mae wedi cael ei nodi fel adran â phroblem sydd angen sylw. Mae'r cyllid sydd ar gael i fynd i'r afael â risg yr ystadau'n parhau i fod yn gyfyngedig, ac mae cyllid sydd wedi cael ei ddarparu i alluogi gwaith cynnal a chadw sydd wedi ei gynllunio wedi cael ei ddargyfeirio er mwyn ymateb i risgiau uniongyrchol sydd wedi codi gydag ystadau. Er gwaethaf cynllun clir ar gyfer mynd i'r afael â gofynion statudol, ar hyn o bryd nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â nifer o ofynion.





Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)